# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 3**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 4**

CASGLU A RHEOLI'R DRETH

*Cofrestru*

**36 Newidiadau a chywiro gwybodaeth**

(1) Rhaid i berson cofrestredig roi hysbysiad i ACC am unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n peri i gofnod y person yn y gofrestr fod yn anghywir.

(2) Rhaid rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r newid yn digwydd.

(3) Rhaid i berson sydd wedi darparu gwybodaeth i ACC at ddiben sy'n ymwneud â chofrestru roi hysbysiad i ACC os yw'r person yn darganfod bod unrhyw ran o'r wybodaeth yn anghywir.

(4) Rhaid rhoi'r hysbysiad cyn diwedd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n ddechrau â'r diwrnod y mae'r person yn darganfod yr anghywirdeb.

(5) Os yw ACC wedi ei fodloni bod gwybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr yn anghywir, caiff gywiro'r gofrestr (pa un a yw'r person cofrestredig y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef wedi rhoi hysbysiad i ACC am yr anghywirdeb ai peidio).

*Newidiadau i ddeddfwriaeth:* *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 36. (See end of Document for details)*

(6) Os yw ACC yn cywiro cofnod person yn y gofrestr, rhaid iddo ddyroddi hysbysiad i'r person yn nodi'r cofnod fel y'i cywirwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 36 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 36 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(j)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 36.